# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 24 Medi, 2008

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Dai Rees Jones (Is-gadeirydd Bwrdd Y Cyngor), ac Ieuan Roberts, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), David McLean, (Buddiant Perchnogion Tir), Chris Hayward, (Buddiannau Hamdden), a Robert Owen, (Buddiannau Masnachol)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Trefor Jones, (Harbwr Feistr cynorthwyol) ac Ioan Hughes (Swyddog Pwyllgor).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Dyfed Edwards**,** Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bad Achub), Dr John Jones Morris, (Buddiannau Hamdden) a David W. Eastwood, (Buddiannau'r Harbwr).

Gwaeledd
Anfonwyd cofion at Eifion Davies, un o brif weithwyr yr Amgueddfa Forwrol sydd wedi dioddef gwaeledd am beth amser. Bu'r amgueddfa ar gau yn absenoldeb Mr Davies, a dywedodd Y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai ymdrechion yn cael ei gwneud i'w hail agor. Mawr obeithir trafod y posibiliadau gyda'r Prif Archifydd a chynrychiolaeth o'r Ymddiriedolaeth Amgueddfa For yn ystod misoedd y gaeaf.

Croeso
Croesawyd y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd a Dai Rees Jones, a oedd yn y pwyllgor am y tro cyntaf.

## 1. CADEIRYDD

**Penderfynwyd ail-ethol y Cynghorydd Ieuan Roberts yn Gadeirydd am y flwyddyn 2008-09.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2008-09.**

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2008 fel rhai cywir.

## 4. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynwyd - Adroddiad yr Uned Forwrol gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

**Morwriaeth**
Cyfeiriodd y swyddog at y trafferthion a gafwyd o safbwynt y cymhorthion mordwyo oherwydd tywydd garw'r haf. Nodwyd ymhellach mai'r bwriad yw parhau gyda'r drefn o oleuo'r cymhorthion dros fisoedd y gaeaf. Yn ogystal bwriedir paratoi rhaglen cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo yn ystod yr Hydref.

Cadarnhawyd bod yr holl gymhorthion mordwyo wedi eu harchwilio gan swyddog Tŷ'r Drindod ar 11 Awst 2008, ac adroddwyd eu bod mewn cyflwr derbyniol.

**Pibell arllwys**

Mynegwyd pryder ynglŷn â chyflwr y bibell arllwys ym Morth y Gest. 'Roedd aelodau'n siomedig na chafwyd ymateb gan Dŵr Cymru i'r cais am wybodaeth ynglŷn â pherchnogaeth y bibell.

Gofynnwyd a oedd hawl i orfodi Dŵr Cymru gymryd camau rhesymol i ddatrys y broblem, a chytunwyd y dylid gwneud popeth posib i osgoi oedi pellach.

**Perchnogaeth Harbwr**

Adroddwyd ar drawsgludiad a gwblhawyd yn 1977 rhwng Barwn Formoy ac Eraill a chyn Gyngor Dosbarth Dwyfor. 'Roedd y trawsgludiad yn cyfeirio at berchnogaeth gwely'r môr o fewn rhan o awdurdodaeth harbwr Porthmadog.

Cyfeiriodd y swyddog at eiriad y trawsgludiad, a nodwyd nad yw'r tir wedi ei gofrestru gyda'r Swyddfa Gofrestru yn enw Cyngor Gwynedd. O dderbyn barn gyfreithiol, 'roedd yn ymddangos fod gwely'r môr rhwng llinell llanw uchel a llinell llanw isel yn perthyn i'r Goron.

Mewn ymateb i ymholiadau, cadarnhawyd na fydd y sefyllfa ddiweddaraf yn achosi unrhyw newidiadau o safbwynt rheoli'r harbwr na hawliau a chyfrifoldebau eraill sydd gan Gyngor Gwynedd mewn perthynas â rheoli'r harbwr. Nodwyd ymhellach na fydd y Cyngor yn wynebu colled ariannol.

**Is-ddeddfau Harbwr**

Mynegwyd pryder a siom gan nad oedd yr Is-ddeddfau drafft wedi cael eu cadarnhau gan yr Adran Drafnidiaeth yn Llundain.

Pwysleisiodd y swyddog fod Uned Gyfreithiol y Cyngor yn ymdrechu i ddatrys y broblem, ac yn gobeithio y daw'r Is-ddeddfau i rym yn 2008/09.

**Datblygiadau Clwb Hwylio ac eraill**

Gwnaed cais gan Glwb Hwylio Madog am ganiatâd i ymestyn y cyfleusterau pontŵn presennol. Nid oedd y swyddog yn rhagweld y byddai modd gwneud hyn gan fod y llithrfa wedi ei hymestyn, a byddai estyniad i'r pontŵn yn amharu arni, yn enwedig ar y trai.

Cadarnhawyd bod cais pellach wedi ei dderbyn gan berchennog tir cyfagos yn ceisio caniatâd er lleoli pontŵn yn ardal yr harbwr. Gwnaed cais tebyg yn 2007, ac er nad oedd aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol yn gwrthwynebu'r cais mewn egwyddor, tynnwyd sylw at gryfder y llanw a chyflwr y môr mewn tywydd garw yn yr ardal. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â chyfyngu'r sianel fordwyo.

'Roedd aelod o'r farn y byddai gwrthwynebiad i gynlluniau fyddai'n effeithio ar y llithrfa

Cadarnhawyd y bydd y ceisiadau diweddaraf yn derbyn sylw gan yr Uned Eiddo.

**Ystadegau Harbwr**

Tynnwyd sylw at y gostyngiad yn nifer y Badau Dŵr Personol yn Harbwr Porthmadog. Nodwyd mai 46 sydd yno yn 2008 o'i gymharu â 136 yn 2006. O ystyried nifer y badau drwy'r sir gwelwyd bod y cyfanswm yn 1040 yn 2007 a'i fod bellach wedi gostwng i 871.

Credir bod cynnydd ym mhris tanwydd wedi effeithio ar y sefyllfa.'Roedd y gostyngiad yn nifer y badau yn siom i'r swyddog, ond o ystyried y sefyllfa yn ei chyfanrwydd dywedodd bod Harbwr Porthmadog yn cymharu'n dda â harbyrau eraill.

Nodwyd ymhellach bod 273 o angorfeydd yn Harbwr Porthmadog ac mai 195, sef 71.4% sydd gyda phreswylydd.

**Cyllidebau**

Adroddwyd bod incwm Harbwr Porthmadog hyd yma yn £78,260, Mae hyn £2,787 yn is na'r targed, ond 'roedd y swyddog yn ffyddiog y gellir cyrraedd y targed o fewn y chwe mis nesaf.

O safbwynt incwm traethau, nodwyd y bydd angen darganfod £176,000 ac yr oedd y sefyllfa'n achos pryder, Credai'r swyddog bod hyn yn adlewyrchu effaith tywydd gwael misoedd yr haf.

**Strwythur Staffio**

Cyfeiriwyd at newidiadau a fu o fewn yr Uned Forwrol a nodwyd fod disgwyl i secondiad yr Harbwr Feistr Cynorthwyol ym Mhorthmadog gael ei ymestyn hyd ddiwedd Rhagfyr.
Diolchodd y Swyddog Morwrol i'r gweithwyr am eu gwaith cydwybodol a'u cydweithrediad.

**Materion Cyffredinol**

Nodwyd bod cwch newydd wedi ei gomisiynu ac wedi bod yn weithredol yn Harbwr Porthmadog yn ystod yr haf. Dyma'r tro cyntaf i gwch rheoli newydd gael ei ddefnyddio ym Mhorthmadog, ac mae'r swyddogion yn ffyddiog y bydd yn fuddiol iawn.

**Cynnal a Chadw Angorfeydd**

Bwriedir cynnal archwiliad ar nifer o angorfeydd ardal Borth y Gest yn ystod misoedd y gaeaf.

Os na fydd yr angorfa wedi ei defnyddio yn ystod 2008, bydd y perchennog yn derbyn cyfarwyddyd i'w chlirio. Os na fydd perchennog yr angorfa wedi ei adnabod cyn y Nadolig, bydd swyddogion yr harbwr yn ei chlirio.

Mewn ymateb i ymholiad cyflwynwyd gwybodaeth am gyfrifoldebau'r Cyngor sy'n statudol a'r rhai nad ydynt yn statudol.

**Lôn Gwydryn**

Ystyriwyd y camau mwyaf derbyniol a ellid eu cymryd i ymdrin â Lôn Gwydryn, Morfa Bychan yn ystod y gaeaf.

Awgrymwyd y byddai'n well ei chau, ond mynegwyd peth pryder ynglŷn â thrafferthion a allasai godi pe byddai angen ymdrin ag argyfwng.

Adroddodd y Swyddog Morwrol bod angen pwyso a mesur mewn sefyllfaoedd o'r fath, a chredai y byddai gadael y lôn ar agor yn creu mwy o risg .

## 5. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Mawrth 2009.

Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 7:15pm